

NICHOLAS, THOMAS (1816 - 1879), gweinidog gyda'r Annibynwyr, athro coleg diwinyddol, ac awdur

Enw: Thomas Nicholas

Dyddiad geni: 181

Dyddiad marw: 1879

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, athro coleg diwinyddol, ac awdur

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 17 Chwefror 1816 yn Nhroedryhiw, Trefgarn, gerllaw Solfach, Sir Benfro. Bu yn y Lancashire College, Manceinion, ac yn yr Almaen (M.A., Ph.D., Prifysgol Göttingen). Gwasanaethodd fel bugain eglwys yn Stroud, swydd Gloucester, a bu am gyfnod yn Eignbrook, Henffordd. Fe'i dewiswyd yn athro llenyddiaeth y Beibl, gwyddor foesol, etc., yng Ngholeg Presbyteriaid Caerfyrddin yn 1856 eithr ymddiswyddodd ac ymsefydlu yn Llundain yn 1863.

Yno, gyda **Syr Hugh Owen**, yr arglwydd **Aberdâr 1af**, y **Parch. David Thomas**, Stockwell, ac eraill, bu'n ddiwyd yn tynnu allan gynllun addysg uwchraddol yng Nghymru ac yn gwasnaethu, am beth amser, fel ysgrifennydd y mudiad ar weiniodd i agor coleg prifathrofaol cyntaf Cymru - yn Aberystwyth yn 1872. Cyn hynny, fodd bynnag, yr oedd Nicholas wedi anghytuno â rhai o'r hyrwyddwyr ac wedi ymddisgwilio; gweler yr hanes gan **Iwan Morgan** yn *The College by the Sea* (Aberystwyth, 1928), 257-66 yn arbennig.

Yr oedd Nicholas wedi cyhoeddi, yn 1863, llyr yn a dynnodd grym sylw ar y pryd, sef *Middle and High Class Schools, and University Education for Wales*; yr oedd hefyd, sef yn 1860, wedi golygu argraffiad o **Mathias Maurice**, *Social Religion Exemplified*.⁴ Heblaw y rhai hwn cyhoeddodd (a) *Pedigree of the English People*, 1868 (am hanes y cyngaws cyfreithiol ynglŷn â llyfr hwn gweler **Iwan Morgan**, op. cit., a **NLW MS 3097E**); (b) *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales* - y mae dwy gyfrol ar. 1872 yn parhau yn llyfrau cyfeirio defnyddiol; (c) *History and Antiquities of the County of Glamorgan and its Families*, sef printiad ar wahân o ran o (b). Ychydig cyn ei farw yr oedd yn cywiro profenni argraffiad Saesneg *Baedecker's London*. Ceir manylion ychwanegol am yrfa Nicholas yn y Nicholas MSS (**NLW MSS 3091-3106** yn awr); noder e.e. **NLW MS 3091B** sydd yn cynnwys hanes tair bregethu o Drefgarth i Lerpwl ac yn ôl yn 1838 yng nghwmni **James Evans** ("Carneirion"; 1814 - 1842), a llythrau a phapurau cyfreithiol (yn **NLW MS 3106E**) yn ymwnedd â Lonsdale House School, Bridgwater, ysaol yr oedd Nicholas yn gyd-bartner ynddi.

Bu farw 14 Mai 1879 yn 156 Cromwell Road, Llundain, a chladdwyd yng nghladdfa Hammersmith (gweler **Edwin Poole**, *The illustrated history and biography of Brecknockshire*, 308).

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Geninen, 1901, 129

Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales. i, 266-7

The Congregational Year Book, 1881

The Homilist, 1877, 456 ff.

a'r ffynonellau a enwyd yn yr ysgrif

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 309677143

Wikidata: Q18735322

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA

Davies, W. Ll., (1953). NICHOLAS, THOMAS (1816 - 1879), gweinidog gyda'r Annibynwyr, athro coleg diwinyddol, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-NICH-THO-1816>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by:
Welsh Government